


NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr

National Offender Management Service

NOMS Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

A baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae NOMS Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd NOMS Cymru'n gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cynnwys

Rhif y dudalen.

2	Cyflwyniad
4	Egwyddorion Cyffredinol
5	Perthynas NOMS Cymru gydag Eraill
7	Safon ein Gwasanaeth Cymraeg
9	Gwasanaeth Cymraeg NOMS Cymru
13	Gweithredu'r Cynllun
16	Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth
17	Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun
17	Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Cynllun
17	Cwynion
19	Atodiad A - Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflawni Cynllun Iaith Gymraeg NOMS Cymru
22	Atodiad B - Dangosyddion Perfformiad

1. Cyflwyniad

Y Cynllun

Mae'r Cynllun yma'n esbonio sut y bydd NOMS Cymru'n gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun wedi'i anelu at y cyhoedd fel corff cyfan a'r cyrff hynny sy'n gysylltiedig â'r gwaith a wneir gyda throseddwyr yng Nghymru.

Mae NOMS Cymru'n rhan o'r Swyddfa Gartref ac, o'r herwydd, mae'n dod dan ymbarél Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref. Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu'n gyfrifol am y gwaith cyffredinol o gydlynu a monitro'r Cynllun yma. Dyma'r cyfeiriad:

[Y Cydlynnydd Iaith Gymraeg](#)
[Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu](#)
[Y Swyddfa Gartref](#)
[2 Stryd Marsham](#)
[Llundain SW1P 4DF](#)

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg NOMS Cymru ar sail wirfoddol i gydnabod anghenion a disgwyliadau penodol NOMS Cymru fel corff sy'n gweithio yng Nghymru ac i Gymru.

Mae gan y Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr y cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun; mae'r Rheolwr Comisiynu'n gyfrifol am reoli'r cynllun o ddydd i ddydd.

Manylion cyswllt:

Ebost: romwales@noms.gov.uk
Ffôn: [02920 826684](tel:02920826684)
Cyfeiriad: [NOMS Cymru](#)
[Ystafell 2.10 \(CP1\)](#)
[Parc Cathays](#)
[Caerdydd](#)
[CF10 3NQ](#)

Sefydlwyd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ym mis Ebrill 2004. Ei bwrpas yw dod â Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol at ei gilydd, gyda Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc, i sefydlu system unedig o wasanaethau cywirol i Gymru a Lloegr ac atebolrwydd clir am ostwng ail droseddu.

Dyma dargedau NOMS, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion yn y 'Strategaeth Pum Mlynedd i Amddiffyn y Cyhoedd a Gostwng Ail-droseddu':

- Amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal carchardai diogel a chadarn a gostwng y risg o niwed gan droseddwyr a reolir yn y gymuned.
- Cefnogi'r llysoedd i bennu cosbau addas am droseddau priodol a chyflawni'r cosbau hynny.
- Cosbau teg a chadarn, cynyddu cydymffurfiad â chosbau cymunedol a thrin pob troseddwr yn weddus.
- Helpu i ostwng troseddu drwy reoli troseddwyr mewn ffordd gyson a di-dor er mwyn gostwng achosion o ail-droseddu, gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Cyfrannu at gymunedau a chymdeithas drwy gynyddu ad-daliad gweladwy i'r gymuned a thrwy gefnogi dioddefwyr troseddau difrifol, a chynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o reoli ac ailsefydlu troseddwyr.

Yn gyffredin â gwasanaethau cyhoeddus eraill, rhaid i NOMS, fel targed ychwanegol, sicrhau gwerth am arian. Mae ei waith trefnu a chefnogi darpariaeth yn cyfrannu at y dasg o sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu ac yn eu darparu yn gost-effeithiol.

Mae NOMS wedi'i drefnu ar sail ranbarthol, gyda naw swyddfa yn Lloegr ac un yng Nghymru (NOMS Cymru) dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru sy'n goruchwyllo rheolaeth y troseddwyr mewn carchardai ac yn y gymuned. Mae'r dull rhanbarthol yma'n golygu bod NOMS Cymru mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion Cymru a'i phobl ac i greu cysylltiadau agosach gydag awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyda chyrff cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, ffydd a chymunedol.

Mae gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am ostwng ail-droseddu yn y wlad. Mae'r rôl yma'n cynnwys datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau i ddarparu gwasanaethau a datblygu polisïau ymhob mater sydd wedi'u trosglwyddo iddynt, mewn cydweithrediad agos â chyrff ac adrannau priodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth Prydain.

Mae NOMS yn ymdrin â nifer o gyrff, yn cynnwys y gwasanaethau carchardai a phrawf. Mae amrywiaeth o gyrff o bob sector yn gweithio gyda NOMS i gyfrannu at ei dargedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys rheoli troseddwyr, dal

troseddwyr dan glo, cosbau cymunedol a rhaglenni ac ymyriadau. Yn ogystal â hynny, mae Prif Weithredwr NOMS, ar ran y Gweinidogion, yn goruchwyllo Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc yng Nghymru a Lloegr; sy'n gorff cyhoeddus gweithredol heb adrannau.

Ym mis Mai 2007 mae gan dîm NOMS Cymru ddeunaw aelod o staff; mae deuddeg wedi'u lleoli yn adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd ac mae pump wedi'u seilio yn Swyddfa'r Rheolwr yng Ngharchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

2. Egwyddorion Cyffredinol

Cydraddoldeb

Wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, rydym wedi'n hymrwymo i'r egwyddor y byddwn yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarparwn ein hunain a'r gwasanaethau hynny a ddarperir ar ein rhan gan eraill.

Darpariad a safon y gwasanaeth

Mae'r holl bolisiau yn y Cynllun hwn yn weithredol ar hyn o bryd neu wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu yn Atodiad A.

Rydym wedi'n hymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ein nod yw sicrhau cysondeb yn safon ein gwasanaethau a yw'r gwasanaethau hynny wedi'u darparu yn y Saesneg neu yn y Gymraeg.

Byddwn yn monitro darpariad a safon ein gwasanaeth.

Cynllunio gwasanaethau

Wrth gynllunio ein gwasanaethau, rydym wedi'n hymrwymo i roi ystyriaeth fanwl i'r angen am ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.

Polisiau a gweithdrefnau newydd

Fel rhan o'r broses o lunio polisiau a mentrau, bydd pob polisi a menter newydd wedi'u hasesu i ganfod ac i ymdrin yn briodol ag unrhyw effaith niweidiol y gallent ei chael ar y cydymffurfiad â Chynllun Iaith Gymraeg NOMS Cymru. Bydd pob polisi a gweithdrefn newydd yn hybu'r defnydd a wneir o'r Iaith Gymraeg lle bo'n bosib.

Drwy weithredu polisiâu a mentrau, bydd NOMS Cymru'n gallu symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun yma, a bydd yn cymryd pob cyfle i symud yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb.

Bydd NOMS Cymru'n ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn cysylltiad ag unrhyw gynigion fydd yn effeithio ar y Cynllun yma, neu a fydd yn effeithio ar Gynlluniau Iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus eraill. Yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg, ni fydd y Cynllun wedi'i ddiwygio mewn unrhyw ffordd heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3. Perthynas NOMS Cymru gydag Eraill: Gwasanaethau Comisiynu, Cynghreiriau a Gweithrediad Rheoli Troseddwr Llywybrau Gostwng Aildroseddu

Bydd NOMS Cymru'n defnyddio egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Saesneg a'r Gymraeg yn ein gwaith i gyd, gan gynnig darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog lle bynnag y mae hynny'n yn ofynnol dan y Cynllun yma.

Mae NOMS Cymru'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau drwy'r pedair Ardal Prawf yng Nghymru, sef Gogledd Cymru, De Cymru, Dyfed-Powys a Gwent, a gyda'r tri charchar cyhoeddus yng Nghymru, sef HMP Caerdydd, HMP Abertawe a HMP Brynbuga/Prescoed drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth, ac mae'n rheoli'r contract gyda'r carchar preifat, HMP Parc yn uniongyrchol. Tasg NOMS Cymru yw gweithio gyda'r sector cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol a phreifat i ostwng aildroseddu a, thrwy'r Llywybrau Gostwng Aildroseddu, mae'n gwneud gwaith ac ymgynghori eang i gyflawni ei amcanion. Mae'r "rheolaeth o un pen i'r llall" ar droseddwr drwy'r Model Rheoli Troseddwr yn faes allweddol o'r gwaith ac yn gofyn cynnal perthnasoedd gwaith agos gyda'r gwasanaethau carchar a phrawf. Yn ychwanegol at y gwaith yma, mae NOMS Cymru'n gweithredu'r agenda Cynghreiriau drwy ei Gynghreiriau â'r sectorau Corfforaethol, Sifil, Ffydd, Gwirfoddol a Chymunedol sy'n cynnwys cydweithio mawr â chyrrff sector cyhoeddus a busnes a'r sectorau cymunedol, ffydd a gwirfoddol. Bydd cyhoeddiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gwaith y mae NOMS Cymru yn ei wneud ag eraill ar gael ar ein gwefan <http://homeoffice.gov.uk/noms-region/wales>.

Ystyriaethau Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Wrth ystyried Cytundebau Lefel Gwasanaeth neu gontractau posib yn y dyfodol; bydd NOMS Cymru'n cynnwys mesurau i sicrhau bod pob sefydliad yn gweithredu'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb i'r Saesneg a'r Gymraeg yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau, a byddent yn rhoi mecanweithiau monitro ar waith i sicrhau bod gwasanaethau o'r un ansawdd

uchel wedi'u darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd NOMS Cymru'n gofyn am gopiâu o'r Cynlluniau Iaith Gymraeg neu bolisiau gan sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau ymrwymiad dyledus i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Cwestiynau allweddol ar gyfer ffrydiau gwaith NOMS Cymru yng nghyd-destun ein Cynllun Iaith Gymraeg

Dyma fydd y gofynion mewn perthynas â'r gwaith a gyflawnir gan NOMS Cymru gyda'r holl sefydliadau, yn cynnwys y rhai sydd wedi'u comisiynu, eu comisiynu ar y cyd a'u cyd-gomisiynu:

- Bod defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu defnyddio gwasanaethau yn eu dewis iaith
- Bod y darparwyr yn rhoi ystyriaeth i ofynion ieithyddol cyflogeion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu eu gwasanaethau a chyflawni eu busnes.
- Bod gweithgareddau a gwasanaethau'r darparwyr yn adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu a'r cysylltiadau ieithyddol sy'n bodoli rhwng y darparydd, y gymuned a'r rhanddeiliaid i gyd.
- Bod y darparwyr yn dangos arweiniad yn y gwaith o hybu'r egwyddorion ieithyddol yma ac yn y dasg o sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaethau'n derbyn gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol a'u dewisiadau o ran iaith.

4. Safon ein Gwasanaeth Cymraeg

Ein nod yw darparu gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel ac, i gyfateb â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, fabwysiadu'r arfer gorau posib mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg.

I wneud hyn byddwn yn:

- sicrhau bod y Saesneg a'r Gymraeg wedi'u trin yn gyfartal;
- cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn bod yn agored a sicrhau dealltwriaeth;
- gweithredu gyda chwarteisi a bod yn barod i helpu bob amser;
- gosod canllawiau clir ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
- pennu llinellau cyswllt clir i'r cyhoedd gysylltu â NOMS Cymru er mwyn eu helpu i ddeall yn well, hybu gwelliannau a thynnu sylw at unrhyw wendidau yng ngweithrediad y polisi;
- sicrhau bod staff ar gael sy'n gallu siarad Cymraeg;
- gwneud yr adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd y gwasanaeth Cymraeg a gosod targedau ar gyfer ei wella; a
- monitro ein perfformiad o ran darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Wrth weithredu'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb i'r Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd drwy ein gwaith i gyd, byddwn yn:

- darparu gwasanaethau a darpariaeth ddwyieithog lle bynnag y byddent yn addas a sicrhau bod ein gwaith i gyd yn cymryd materion ieithyddol a diwylliannol i ystyriaeth;
- rhoi sylw manwl i ddimensiynau ieithyddol a diwylliannol yn natblygiad a gweithrediad ein gwaith a'n cyhoeddiadau i gyd, gan ymgynghori'n eang ar eu cynnwys;
- ymgynghori gyda'r sefydliadau yr ydym yn gweithio â hwy, nodi'r iaith maent wedi'i defnyddio wrth gysylltu am y tro cyntaf, ac ystyried amgylchiadau lleol e.e. eu polisiau, staffio ac arferion cyfredol;
- pan fyddent wedi nodi ei bod hi'n well ganddynt weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, sicrhau bod yr adnoddau a'r arbenigedd fydd yn caniatáu hynny wedi'u rhoi ar waith;
- sicrhau bod ein gwaith a'n gweithgareddau sy'n deillio o ofynion a mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'u gweithredu'n ddwyieithog fel y bo'n briodol;
- cyflawni mentrau NOMS Cymru sydd wedi'u bwriadu i hybu ymwybyddiaeth pobl o'r ffactorau sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd ac effeithlonedd ymhob agwedd o'r gwaith a hwyluso codi'r safonau'n ddwyieithog;

- sicrhau bod gwybodaeth wedi'i chasglu am gydweithrediad pob darparydd posib gyda'r gofynion iaith Gymraeg yn eu contractau;
- monitro cydweithrediad â gofynion iaith Gymraeg drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau
- archwilio canlyniadau monitro Cytundebau Lefel Gwasanaeth i sicrhau cydweithrediad; a
- chynnal deialog rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ein gwaith, ac ymgynghori gyda'i gynrychiolwyr ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

5. Gwasanaeth Cymraeg NOMS Cymru

Gohebu gyda'r cyhoedd

Rydym yn croesawu cyfathrebiad ysgrifenedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd unrhyw ohebiaeth yr ydym ni'n ei chychwyn am faterion sydd o ddiddordeb cyffredinol yng Nghymru, yn ddwyieithog.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod yr holl ohebiaeth wedi'i hateb yn yr iaith y derbyniwyd yr ohebiaeth ynddi. Bydd pob gohebiaeth bersonol wedi'i hysgrifennu yn yr iaith a ddefnyddir gan y person sy'n derbyn y llythyr, os byddwn yn gwybod beth ydyw. Os nad fyddwn yn gwybod beth yw'r dewis iaith, bydd y llythyr cyntaf yn ddwyieithog.
- byddwn yn cychwyn gohebu yn y Gymraeg gyda'r bobl hynny sy'n dewis cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- byddwn yn sicrhau bod yr un cyfyngiadau amser yn weithredol i ymateb NOMS Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfathrebiad wyneb yn wyneb a dros y ffôn gyda'r cyhoedd

Mae croeso i unrhyw un sy'n cysylltu â ni dros y ffôn wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd pawb wedi'u cyfarch yn ddwyieithog. Gallent ddisgwyl cael eu trosglwyddo, os byddent yn dymuno hynny, at aelod o staff sy'n gallu siarad â nhw yn y Gymraeg. Bydd ymwelwyr â swyddfeydd NOMS Cymru'n derbyn gwasanaeth tebyg.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau ein bod wedi rhoi cyfarwyddyd i bob aelod o staff gyfarch yn ddwyieithog; a
- sicrhau, os nad oes staff ar gael sy'n siarad Cymraeg, ein bod yn cynnig trefnu i siaradwr Cymraeg eu ffonio'n ôl gynted ag sy'n bosib. Opsiwn arall yw ein bod yn cynnig y gallai'r sawl sy'n galw barhau'r alwad yn y Saesneg neu ysgrifennu atom yn y Gymraeg.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Rydym yn annog ac yn croesawu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebiad electronig.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod unrhyw feddalwedd newydd, a'n gwefan newydd, yn gyfatebol â'r Cynllun a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, byddwn yn ystyried y trefniadau ymarferol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod modd i bawb siarad yn eu dewis iaith.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau, wrth drefnu cyfarfodydd gydag aelodau o'r cyhoedd, bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r trefniadau ymarferol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gan bawb sy'n bresennol yr opsiwn o siarad Cymraeg neu Saesneg.
- Er mwyn pennu'r gofyniad am gyfarfod cyhoeddus dwyieithog, dylid rhoi ystyriaeth i broffil ieithyddol yr ardal lle cynhelir y cyfarfod. Mewn ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn isel, bydd unrhyw ddefnyddiau a ddefnyddir i hysbysebu cyfarfod yn nodi bod modd darparu cyfarpar cyfieithu os gofynnir am hynny o flaen llaw.

Cynadleddau a chyfarfodydd NOMS Cymru

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd a chynadleddau a gynhelir gan NOMS Cymru.

I wneud hyn byddwn yn:

- trefnu gwasanaeth cyfieithu, yn arbennig mewn sesiynau trafod agored; a
- rhoi'r cyfle i'r grŵp ddewis trafod yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel bod pawb sy'n bresennol yn gallu cyfrannu yn eu dewis iaith.

Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd enw, cyfeiriad a logo NOMS Cymru'n ddwyieithog ac wedi'u defnyddio ymhob cyhoeddiad/cyfeiriad/cyflwyniad. Bydd arwyddion gwybodaeth o fewn ac oddi amgylch swyddfeydd NOMS Cymru'n ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn derbyn yr un sylw yn nhermau fformat, maint, ansawdd ac eglurder. I wneud hyn byddwn yn:

- sicrhau bod papur llythyru, slipiau cyfarch, taflenni esbonio (ffacs ac eraill), cardiau busnes staff, llofnodion e-bost ac eitemau tebyg yn ddwyieithog a bod y ddwy iaith wedi'u trin yn gyfartal yn nhermau fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd; a

- sicrhau bod yr holl arwyddion newydd, neu rai sydd wedi'u diweddarau, yn ddwyieithog.

Cyhoeddiadau

Bydd holl aelodau'r cyhoedd yn gallu darllen y cyhoeddiadau hynny gan NOMS Cymru sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn eu dewis iaith. Bydd NOMS Cymru'n gofyn o flaen llaw ym mha iaith y byddai'n well gan sefydliadau dderbyn eu hadroddiadau ynddi, ac yn darparu'r adroddiadau felly.

I wneud hyn byddwn yn:

- sicrhau bod fformat dwyieithog i adroddiadau NOMS Cymru sydd wedi'u cyhoeddi'n ddwyieithog; bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r testun ar wahân wedi'u cyhoeddi os yw'r fformat yma'n fwy priodol dan amgylchiadau arbennig, er enghraifft, lle byddai fformat dwyieithog yn gwneud dogfen yn flêr. Bydd y defnydd i gyd wedi'i gyhoeddi ar yr un pryd a gyda'i gilydd. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod yr adroddiad ar gael yn yr iaith arall.

Hysbysiadau yn y Wasg

Bydd hysbysiadau yn y wasg am holl agweddau ein gwaith wedi'u cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hysbysiadau wedi'u dosbarthu i ganolfannau cyfryngau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yng Nghymru. I wneud hyn byddwn yn:

- darparu cyfarwyddiadau swyddfa er mwyn sicrhau bod yr holl ddatganiadau a hysbysiadau yn y wasg wedi'u cyhoeddi'n ddwyieithog, a byddwn yn monitro cydymffurfiad.

Defnydd cyhoeddusrwydd

Bydd yr holl ddefnydd cyhoeddusrwydd, mewn print neu fformat arall, ac yn cynnwys defnydd ar gyfer ei arddangos, wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog.

I wneud hyn byddwn yn:

- cynhyrchu ac yn monitro cynhyrchiad defnyddiau cyhoeddusrwydd yn yr iaith Gymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau ansawdd cyson yn y defnydd terfynol a gyhoeddir, yn y ddwy fersiwn.

Penodi

Bydd hysbysebion i benodi ymgeiswyr i bob swydd yn NOMS Cymru yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ac wedi'u dangos gyda'i gilydd. Bydd y ddwy iaith wedi'u trin yn gyfartal yn nhermau fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Pan fydd sgiliau iaith Gymraeg wedi'u hystyried yn ofynion hanfodol ar gyfer y swydd ac ar gyfer dosbarthiad y papur newydd a'r cylchgrawn, gallai hysbyseb ymddangos mewn un iaith yn unig (er enghraifft y wasg Gymraeg lle bydd yn y Gymraeg yn unig).

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- cyhoeddi ein hysbysebion ar gyfer swyddi yn unol â'n polisi ac yn eu monitro i sicrhau eu bod wedi'u cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'n gofynion.

Gwasanaethau a ddarperir gan eraill ar ran NOMS Cymru

Mae NOMS Cymru wedi'i ymrwymo i sicrhau bod ei holl drefniadau comisiynu a chontractio'n adlewyrchu'n llawn ac yn gwella datblygiad darpariaeth y gwasanaethau Cymraeg yn ei waith gyda darparwyr, rhanddeiliaid a defnyddwyr y gwasanaeth, a thrwy ei waith yn rheoli troseddwyr a'i nod o ostwng aildroseddu.

Drwy ei waith mewn comisiynu, Llwybrau Gostwng Aildroseddu a gwaith Rheoli Troseddwyr, mae NOMS Cymru'n gweithio gyda nifer o bartneriaid, a gellir darparu rhai gwasanaethau drwy drefniadau is-gontractio. I sicrhau bod darparwyr sy'n gweithio gyda NOMS Cymru'n cydymffurfio â'r Cynllun yma, byddwn yn:

- sicrhau bod yr holl Drefniadau Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau/is-gontractau'n gyson gyda thelerau'r Cynllun Iaith yma;
- cynnwys gofynion penodol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu fanylebau contract/is-gontract;
- darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i staff sy'n ymwneud â Chytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu drefniadau contract/is-gontract;
- craffu ar yr holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth a/neu gontractau/is-gontractau'n ofalus er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion wedi'u cyflawni. Drwy delerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu gontract/is-gontract gallwn sicrhau bod y darparydd yn cyflawni adrannau perthnasol o'n Cynllun Iaith.

Partneriaethau –

Mae NOMS Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, y Sector Gwirfoddol, Ffydd a Chymunedol a'r sector preifat. Wrth weithio gydag eraill bydd NOMS Cymru'n mabwysiadu'r agweddau nesaf:

- pan fydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol ac ariannol partneriaeth, bydd NOMS Cymru'n sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith ei hun;
- pan fydd yn cyfranogi mewn partneriaeth sydd wedi'i harwain gan gorff arall, bydd NOMS Cymru'n sicrhau bod ei gyfraniad ei hun i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a'i fod yn annog y partïon eraill i wneud yr un peth; ac
- wrth weithredu drwy gyd-gomisiynu, bydd NOMS Cymru'n annog yr holl gyd-gomisiynwyr i sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ganddynt neu eu bod yn mabwysiadu ei bolisi iaith ef. Wrth weithredu'n gyhoeddus drwy drefniant cyd-gomisiynu, bydd NOMS Cymru'n gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith ei hun.

Pan fydd naill ai'n ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd NOMS Cymru'n disgwyl i'r partneriaid posibl ddarparu Cynlluniau Iaith, polisiau iaith neu drefniadau ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd NOMS Cymru'n cynnig cyngor a chymorth i'r partïon perthnasol eraill.

6. Gweithredu'r Cynllun

Arweinyddiaeth a rheolaeth y Cynllun

Byddwn yn rhoi statws uchel i'n Cynllun Iaith a'n nod yw ei weithredu'n dda. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- sicrhau bod cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yng Nghymru am y Cynllun wedi'i drosglwyddo i Uwch Reolwr sydd wedi'i enwi. Bydd ef/hi'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd ac yn adrodd am hyn i Gyfarwyddwr Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cymru yn rheolaidd;
- sicrhau cysylltiad rhwng yr Uwch Reolwr a chynrychiolwyr o ffrydiau gwaith eraill er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun ac i fonitro ei effeithiolrwydd;
- sicrhau cyfranogaeth gweithgor sy'n cynrychioli holl staff NOMS Cymru sydd wedi'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yng Nghymru, yn y broses o adolygu a datblygu'r Cynllun ; a
- sefydlu trefniadau monitro addas.

Staffio

Un o nodau NOMS Cymru fydd cael nifer digonol o staff dwyieithog i gyflawni ei fusnes yn unol â gofynion y Cynllun hwn.

I gyflawni'r amcan yma:

- er mwyn asesu anghenion staffio'r sefydliad ar gyfer cyflawni gofynion y Cynllun, byddwn yn ystyried gofynion sgiliau Iaith Gymraeg y gwahanol swyddi o fewn y sefydliadau. Bydd hyn wedi'i ddilyn gan archwiliad o sgiliau'r staff sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd.
- byddwn yn monitro gallu ieithyddol ac ymwybyddiaeth ieithyddol staff NOMS Cymru i sicrhau bod gennym y sgiliau dwyieithog i gyflawni gofynion y Cynllun yma;
- byddwn yn penderfynu ar drefniadau wrth gefn ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn neu ohebiaeth yn y Gymraeg pan fo prinder adnoddau dwyieithog yn NOMS Cymru;
- byddwn yn dangos mewn defnydd gwybodaeth penodi ymhle mae'n hanfodol neu'n fanteisiol i'r ymgeiswyr allu gweithio'n ddwyieithog. Os na fydd modd canfod siaradwr Cymraeg i lenwi swydd lle mae sgiliau Cymraeg wedi'u hystyried yn hanfodol, byddwn yn gwneud penodiad dros dro ac yn ail hysbysebu'r swydd ar ôl cyfnod o amser, neu byddai ail-drefnu cyfrifoldebau'r staff am gyfnod byr o amser cyn ail-hysbysebu yn well na phenodi siaradwr di-Gymraeg sydd ag ymrwymiad i ddysgu Cymraeg.
- byddwn yn cyflogi digon o staff dwyieithog i'n galluogi i gwblhau gwaith yn effeithiol ac yn effeithlon yr iaith Gymraeg ac o fewn y cyfyngiadau amser sydd wedi'u gosod;
- byddwn yn blaenoriaethu anghenion hyfforddi'r staff yng nghyd-destun yr angen am gyflawni gofynion y Cynllun yma;
- byddwn yn sicrhau hyfforddiant i staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwella eu sgiliau siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg fel eu bod yn gallu paratoi a chyfrannu at gyflawni ein hamcanion; a
- byddwn yn sicrhau hyfforddiant i staff di-Gymraeg sydd eisiau dysgu Cymraeg.

Wrth benodi staff, mae Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru'n ystyried gallu'r staff cyfredol yn y Gymraeg ac yn hysbysebu fel y bo'n addas. Pan fydd rhywun di-Gymraeg wedi'u penodi i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi'i ystyried yn hanfodol, un o'r amodau cyflogi yw y bydd NOMS Cymru'n darparu'r adnoddau a'r gefnogaeth i alluogi'r person yma i ddysgu'r iaith i'r lefel ofynnol o fewn cyfnod rhesymol o amser y cytunwyd arno.

Wrth ystyried a yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, defnyddir y meini prawf nesaf:

- Maint y cysylltiad gyda'r cyhoedd
- Lefel gyfredol y sgiliau o fewn yr adran
- Lefel gyfredol y sgiliau o fewn y lleoliad/swyddfa

Gellir pennu bod yr Iaith Gymraeg yn 'fanteisiol' ar gyfer rhai swyddi er mwyn datblygu gallu'r sefydliad i ddarparu'r Gymraeg.

Ym mis Mai 2007, o'r 18 aelod o staff a gyflogir gan NOMS Cymru, mae 1 unigolyn yn rhugl yn y Gymraeg.

Hyfforddiant Iaith Gymraeg i'r staff

Bydd hyfforddiant wedi'i gynnig i'r staff i gyd, yn cynnwys aelodau di-Gymraeg o staff, i ddatblygu neu wella eu sgiliau siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

I wneud hyn, byddwn yn:

- cefnogi staff sydd eisiau mynychu cyrsiau mewn canolfannau priodol i wella eu sgiliau siarad/ysgrifennu;
- darparu hyfforddiant o fewn y sefydliad i wella cywirdeb eu Cymraeg ysgrifenedig; a
- byddwn yn cymryd i ystyriaeth yr anghenion hyfforddi hynny a bennwyd yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac, yn dilyn hynny, mewn gwerthusiadau, er mwyn cynllunio cyrsiau datblygu iaith i'r staff yn unol â'u ceisiadau ac yn unol ag anghenion NOMS Cymru.

Hyd yn hyn, mae 67% o'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn sgiliau ffôn sylfaenol¹. Ein nod yw sicrhau bod 100% o'r staff yn derbyn yr hyfforddiant yma.

Cefnogaeth i staff i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg

Byddwn yn rhoi cefnogaeth i'r staff i weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- rhoi copi o'r Cynllun Iaith i'r staff i gyd;
- rhoi cyfle i'r staff ymateb i ddrafft;
- darparu cyfarwyddiadau/canllawiau i gefnogi agweddau dilynol y Cynllun;
- cyfathrebu gyda'r cyhoedd (cyswllt ffôn ac wyneb yn wyneb);
- gweithredu arferion cyhoeddiadau dwyieithog NOMS Cymru;
- darparu cyfleoedd i hyfforddi yn yr iaith Gymraeg, yn cynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth am iaith; a

¹ Hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Brifysgol Morgannwg

- chasglu, storio ac adfer data, a chynhyrchu defnydd dwyieithog ar systemau technoleg gwybodaeth.

Gwasanaethau cyfieithu

Byddwn yn sicrhau gwasanaethau cyfieithu effeithiol o ansawdd uchel sy'n ein galluogi i ateb gofynion y Cynllun.

I wneud hyn byddwn yn:

- monitro cyrhaeddiad targedau amser y cytunwyd arnynt; a
- gwerthuso ansawdd y cyfieithiadau a gynhyrchir, a rhoi adborth i'r gwasanaeth cyfieithu.
- sicrhau bod unrhyw gyfieithwyr a gomisiynir i wneud gwaith cyfieithu ar ran NOMS Cymru'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

7. Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth

Bydd y strwythur adrodd nesaf wedi'i mabwysiadu yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad y Cynllun:

1. Bydd adroddiadau cynnydd mewnol wedi'u paratoi a'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli bob chwarter. Bydd yr adroddiadau cynnydd yn cynnwys data am berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad B. Mae'r Dangosyddion Perfformiad yma'n adlewyrchu'r rheiny sydd wedi'u datblygu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
2. Bydd NOMS Cymru'n paratoi Adroddiad Monitro Blyneddol fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion yma:
 - mesur a yw NOMS Cymru'n cydymffurfio â'r Cynllun;
 - mesur ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg;
 - mesur effeithiolrwydd ei weithdrefnau rheoli Cynllun;
 - mesur a yw maint sgiliau ieithyddol NOMS Cymru'n ddigonol drwy gymharu adnoddau cyfredol gydag anghenion cyfredol;
 - dadansoddi perfformiad ar sail adrannol, corfforaethol a thematig i sicrhau cysondeb; a
 - chanfod unrhyw wendidau allweddol gyda chynlluniau gweithredu a llunio amserlen i adfer y sefyllfa.
3. Yn dilyn cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Rheoli, bydd copi o'r adroddiad swyddogol wedi'i anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4. Yn nhrydedd flwyddyn gweithrediad y Cynllun, bydd NOMS Cymru'n adolygu ac yn diweddarau ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen ddiwygiedig. Bydd NOMS Cymru'n paratoi adroddiad gwerthuso hefyd, fydd yn dadansoddi perfformiad y broses o weithredu'r cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Bydd yr adroddiad trydedd flwyddyn yma'n cynnwys:

- trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiad â'r Cynllun dros y tair blynedd, yn nhermau ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg a rheolaeth y Cynllun; ac
- amlinelliad o amcanion a nodau pellach NOMS Cymru a thargedau ar gyfer y tair blynedd ddilynol, gydag amserlen gweithredu ddiwygiedig. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn amlinellu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau, y mae NOMS Cymru'n credu y dylid eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig.

8. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun. I wneud hyn byddwn yn:

- gwneud cyfeiriad amlwg at ei ddatblygiad a'i brif nodweddion yn y cynllun corfforaethol neu flynyddol;
- cyhoeddi'r Cynllun ei hun ac yn cynhyrchu datganiad i'r wasg pan gaiff ei gyhoeddi;
- dosbarthu taflenni/dalennau dosbarthu yn disgrifio prif nodweddion y Cynllun i'n rhanddeiliaid
- ei gyhoeddi ar wefan NOMS Cymru unwaith y bydd wedi'i ddatblygu.

9. Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Cynllun

Byddwn yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun. Dylech anfon eich awgrymiadau at romwales@noms.gov.uk.

10. Cwynion

Bydd bob cwyn wedi'i thrin yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni yng ngweithdrefn cwynion y Swyddfa Gartref, sydd wedi'i chyhoeddi, fel y mae'n berthnasol i NOMS Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn: ystyried cwynion, ceisio tystiolaeth a gwneud argymhellion am newidiadau i'n harferion a chanllawiau mewnol fel y bo'n angenrheidiol.

Y cyswllt cyntaf ar gyfer cwynion yn ymwneud â Chynllun Iaith Gymraeg NOMS Cymru yw Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwr Cymru yn

romwales@noms.gov.uk

NOMS Cymru

Ystafell 2.10 (CP1)

Parc Cathays

Caerdydd

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflawni Cynllun Iaith Gymraeg NOMS Cymru

Atodiad A

Adran	Gweithredu	Y Meini Prawf ar gyfer Llwyddo	Pwy sy'n Gyfrifol	Y Dyddiad Targed
<u>3. Perthynas NOMS Cymru gydag Eraill:</u>	Byddwn yn defnyddio egwyddor cydraddoldeb ar gyfer yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg fel ei gilydd yn ein gwaith i gyd.	Ymwybyddiaeth o oblygiadau'r holl fentrau a pholisïau newydd; cyswllt rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg; sicrhau bod ein cyngor yn cymryd i ystyriaeth faterion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.	Y Rheolwr Comisiynu/ Swyddog Arweiniol yr Iaith Gymraeg	Parhaus
<u>4. Safon ein Gwasanaeth Cymraeg</u>	Ein nod yw darparu gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel ac, yn gyfatebol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, byddwn yn mabwysiadu'r arfer gorau posib mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg.	Tystiolaeth o ymgynghoriad ar anghenion a sicrhau ymateb addas; tystiolaeth o driniaeth gyfartal; arweiniad eglur ar safonau gwasanaeth; datblygu polisïau yng nghyd-destun adborth; adborth positif gan ddefnyddwyr y gwasanaeth; a does dim cwynion wedi'u derbyn sydd wedi'u cyfiawnhau.	Y Rheolwr Comisiynu/ Swyddog Arweiniol yr Iaith Gymraeg	01/07/07
<u>5. Gwasanaeth Cymraeg NOMS Cymru</u>	Bydd yr holl ohebiaeth wedi'i hateb yn yr iaith y derbyniwyd yr ohebiaeth ynddi Mae croeso i unrhyw un sy'n cysylltu â ni dros y ffôn wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd pawb wedi'u cyfarch yn ddwyieithog. Gallent ddisgwyl cael eu trosglwyddo at aelod o staff sy'n gallu trafod gyda nhw drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn annog ac yn croesawu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebiad electronig a byddwn yn	Mae cyfarwyddiadau desg ar waith; mae'r monitro'n dangos cydymffuriad; a does dim cwynion wedi'u derbyn sydd wedi'u cyfiawnhau. Mae un siaradwr Cymraeg yn nhîm NOMS Cymru ond, er mwyn gwella ein gallu i ymateb yn y Gymraeg bydd protocol wedi'i roi ar waith rhwng NOMS Cymru a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywiad i roi mynediad i NOMS Cymru at siaradwr Cymraeg sydd wedi'i gyflogi/wedi'i chyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru os bydd unrhyw un eisïau cyfathrebu gyda thîm NOMS Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant yma'n cynnwys ymrwymiad i ymateb i'r unigolyn o fewn yr amser gofynnol sydd wedi'i amlinellu ym mharagraff 5. Mae proses o fonitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth wedi'i sefydlu a'i chynnal. Mae cynnod ymsefydliad a hyfforddiant ar gael i'r staff; ac mae cyfarwyddiadau desg wedi'u diweddarau ar gael ac ar waith. Gwefan ddwyieithog wedi'i sefydlu ar gyfer NOMS Cymru.	Y Rheolwr Busnes Y Rheolwr Busnes Y Rheolwr Busnes	01/07/07 01/07/07 01/08/07

Adran	Gweithredu	Y Meini Prawf ar gyfer Llwyddo	Pwy sy'n Gyfrifol	Y Dyddiad Targed
	<p>sicrhau bod ein gwefan yn ddwyieithog.</p> <p>Sicrhau bod yr holl arwyddion newydd neu'r arwyddion sy'n cael eu diweddarau yn ddwyieithog.</p> <p>Bydd hysbysiadau yn y wasg am bob agwedd o'r gwaith wedi'u cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hysbysiadau wedi'u dosbarthu i ganolfannau cyfryngau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghymru.</p> <p>Cyhoeddi hysbysebion penodi ar gyfer swyddi yn NOMS Cymru yn y Saesneg a'r Gymraeg a'u dangos gyda'i gilydd. Bydd y ddwy iaith yn cael cydraddoldeb yn nhermau fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.</p> <p>Darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i'r staff sy'n cyfranogi yn y trefniadau contract/is-gontract a/neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth.</p>	<p>Mae'r holl arwyddion newydd yn ddwyieithog.</p> <p>Mae protocol NOMS Cymru ar gyfer cyhoeddi datganiadau i'r wasg wedi'i gytuno. Mae hwn yn cynnwys amlinelliad o'r broses o gyhoeddi hysbysiad yn y wasg a rhestr o ganolfannau cyfryngau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghymru sydd i gael eu defnyddio i gario'r hysbysiad yn y wasg.</p> <p>Mae cyfarwyddiadau swyddfa ar waith i sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn y wasg wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae proses ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y broses wedi'i sefydlu a'i chynnal.</p> <p>Mae'r holl ddefnyddiau a hysbysebion penodi'n ateb gofynion y cynllun.</p> <p>Mae gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith.</p>	<p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Comisiynu</p>	<p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p> <p>01/08/07</p> <p>01/08/07</p> <p>01/07/07</p>
<p>6. Gweithredu'r Cynllun</p>	<p>Ar staff NOMS Cymru bydd nifer ddigonol o aelodau dwyieithog i weithredu ei fusnes yn unol â gofynion y cynllun yma ac o fewn yr amser gofynnol.</p> <p>Bydd hyfforddiant wedi'i gynnig i ddatblygu gallu'r staff i gyd i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn darparu cefnogaeth i'r staff mewn perthynas â gweithredu ein Cynllun iaith Gymraeg.</p>	<p>Caiff staff eu penodi a'u hyfforddi i alluogi i NOMS Cymru ateb y gofynion yma.</p> <p>Mae hyfforddiant sylfaenol mewn cyfathrebu wedi'i ddarparu i bob aelod o dîm NOMS Cymru er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff y sgiliau angenrheidiol i gyfarch bob unigolyn yn ddwyieithog (Para 5).</p> <p>Rhoddir cyfle i bob aelod o dîm NOMS Cymru ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach. Mae hyfforddiant ychwanegol, parhaus, wedi'i ddarparu i'r aelodau hynny o'r staff.</p> <p>Mae staff sydd eisiau dysgu Cymraeg, i wella eu galluoedd cyfredol neu i ddod yn fwy hyderus yn eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg yn cael cyfle i wella eu sgiliau iaith.</p> <p>Mae hyfforddiant, cyfarwyddiadau desg a chefnogaeth bersonol ar gael i'r staff.</p>	<p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Y Rheolwr Busnes</p>	<p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p>

Adran	Gweithredu	Y Meini Prawf ar gyfer Llwyddo	Pwy sy'n Gyfrifol	Y Dyddiad Targed
	<p>Darparu cyfarwyddiadau/arweiniad i gefnogi agweddau o'r Cynllun, yn cynnwys cyfathrebu gyda'r cyhoedd, gweithredu arferion cyhoeddiadau NOMS Cymru, darparu cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg, casglu, storio ac adfer data a chynhyrchu defnydd dwyieithog ar systemau technoleg gwybodaeth.</p> <p>Mae aelodau o dîm NOMS Cymru'n ymgynghori ar y cynllun yma wrth wneud Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb.</p>	<p>Mae hyfforddiant, cyfarwyddiadau desg a chefnogaeth bersonol ar gael i'r staff</p> <p>Ymgynghorir ar y cynllun a chaiff y gofynion eu cynnwys yn yr asesiadau o Effaith Cydraddoldeb.</p>	<p>Y Rheolwr Busnes</p> <p>Swyddog Arweiniol yr Iaith Gymraeg</p>	<p>01/07/07</p> <p>01/07/07</p>
<p>7. <u>Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth</u></p>	<p>Byddwn yn monitro ein perfformiad o ran cyflawni'r ymrwymadau a wneir yn y cynllun yma gyda'r nod o'i wneud yn fwy effeithiol. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n cymharu perfformiad gyda safonau a thargedau a ddisgrifir yn Atodiad B y cynllun yma.</p>	<p>Mae trefniadau monitro cadarn ar waith sy'n creu gwelliant yn y gwasanaeth ac ym moddhad y cyhoedd gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.</p>	<p>Y Rheolwr Comisiynu/ Swyddog Arweiniol yr Iaith Gymraeg</p>	<p>01/07/07 gydag adolygiad chwarterol</p>
<p>8. <u>Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun</u></p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n cynllun.</p> <p>Byddwn yn cyfeirio'n amlwg at ei ddatblygiad a'i brif nodweddion yn y cynllun corfforaethol neu flynyddol.</p>	<p>Defnyddio'r wefan: adborth gan y cyhoedd; lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymysg staff a chleientiaid/cwsmeriaid am gynnwys y cynllun; a does dim cwynion wedi'u derbyn sydd wedi'u cyfiawnhau.</p>	<p>Y Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwy</p>	<p>Yn aros am weithrediad o'r pencadlys</p>
<p>10. <u>Cwynion</u></p>	<p>Bydd yr holl gwynion wedi derbyn sylw yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni yn y weithdrefn gwyno a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.</p>	<p>Mae system wedi'i sefydlu sy'n cydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.</p> <p>Mae proses ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y broses wedi'i sefydlu a'i chynnal.</p> <p>Mae pob cwyn wedi'i thrin yn unol â pholisi cwynion y Weinyddiaeth Cyfiawnder.</p>	<p>Y Rheolwr Busnes</p>	<p>01/07/07</p>

DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Comisiynu a chontractio

Nifer a % y sampl o Drydydd partïon gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r dangosydd yma'n canolbwyntio ar gydweithio gyda sefydliadau eraill, a bydd ei bwysigrwydd yn cynyddu gydag amser. Y bwriad yw monitro, nid yr holl gontractau, ond sampl o gontractau sydd i gael eu cytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol.

Gwasanaethau rheng flaen

Nifer a % y swyddi sydd wedi'u dynodi fel rhai lle mae'r 'Gymraeg yn hanfodol' neu lle mae'r 'Gymraeg yn fanteisiol' ac wedi'u llenwi gyda staff sy'n ddwyieithog.

Mae'r dangosydd yma'n rhoi ffocws ar ofal cwsmeriaid ar bwynt allweddol o'r rhyngwyneb â'r cyhoedd.

Adnoddau dynol- sgiliau

- a) y nifer a'r % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster penodol

Dangos y gallu i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog

- b) y nifer a'r % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ieithyddol

Mae hyn yn ymwneud â safon y gwasanaeth

Adnoddau dynol - cydraddoldeb ac amrywiaeth

Y nifer a'r % o staff sy'n gallu siarad Cymraeg:

- Yn ôl yr adran
- Yn ôl graddfa'r swydd
- Yn ôl y gweithle, y swyddfa a'r ganolfan yn y prif swyddfeydd ardal

Mae'r dangosydd yma'n ymwneud â gallu sefydliad i gynnig dewis o ran iaith wrth ddarparu gwasanaeth. Bydd gallu yn y Gymraeg wedi'i seilio ar feini prawf hunan-ddetholiad y cyfrifiad.

Safon y gwasanaethau Cymraeg

Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â gweithrediad y cynllun iaith a'r % yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad.

Safon y gwasanaeth